**LC124**

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**PWYLLGOR DEDDFAU** ADRODDIAD DRAFFT

**LEGISLATION COMMITTEE** REPORT DRAFT

**Rheoliadau Addysg (Cyfyngu Cyflogaeth) (Cymru) 2000**

**Y Cefndir**

Dyma ddiben y rheoliadau hyn:

- atal pobl sydd eisoes wedi'u gwahardd neu wedi'u cyfyngu rhag cael cyflogaeth yn y gwasanaeth addysg rhag darparu gwasanaethau i ysgolion sy'n golygu cyswllt cyson â phlant, neu
- sicrhau bod adroddiadau'n cael eu cyflwyno gan gyflogwyr athrawon i Gynulliad Cenedlaethol Cymru mewn achosion o ddiswyddo ar sail camymddwyn.

Cynhwysir y pwerau sy'n galluogi'r offeryn hwn i gael ei wneud yn adrannau 218(6A) a (6B) a 232(5) a (6) o Ddeddf Diwygio Addysg 1988 ac adrannau 15 a 41(6) a (7) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998

Cafodd y pwerau sy'n atal cyfyngu cyflogaeth o dan adran 218(6) o Ddeddf Diwygio Addysg 1988 eu gwneud yn gydamserol â Lloegr gan Orchymyn Amrywiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2000. Cafodd rheoliadau a oedd yn ymwneud â Chymru a Lloegr – Rheoliadau Addysg (Cyfyngu Cyflogaeth) 2000 – eu gwneud yn unol â hynny.

Mae’r rheoliadau hyn yn ywneud â materion perthnasol (y cyfeirir atynt uchod) lle mae’r pwerau yn perthyn i’r y Cynulliad Cenedlaethol yn unig.

Mae’r ddwy set o reoliadau’n disodli darpoariaethau tebyg yn Rheoliadau Addysg (Athrawon) 1993 (fel y’i diwygiwyd).

**Rheol Sefydlog 11.5**

Nid oes unrhyw bwyntiau wedi’u nodi fel materion y mae angen i’r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddynt.

**Sylwadau Cyffredinol**

Rhoddwyd cyfle blaenorol i Gynghorwyr Cyfreithiol y Pwyllgor gyflwyno sylwadau ar y rheoliadau ac o ganlyniad nid oes unrhyw sylwadau pellach.

**M. German OBE AM**

**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

10 Hydref 2000